20.12.2019

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Article**

# Llond pafiliwn o ganu, dawnsio a chwerthin yn Noson Lawen Eisteddfod Llanrwst

Noson Lawen yr Eisteddfod - sioe orlawn o ganu, dawnsio a chwerthin gyda rhes o berfformwyr a diddanwyr yn camu i'r llwyfan, gan gynnwys nifer o dalentau lleol. Ar nos Sadwrn, 4 Ionawr, bydd cyfle i ail-fyw **Noson Lawen Eisteddfod 2019** a mwynhau'r hwyl ac adloniant yng nghwmni llu o sêr.

Yn fro enwog am ei chorau, 'steddwch lawr a mwynhewch gwledd o berfformiadau gan gorau lleol megis Hogiau'r Berfeddwlad, Côr Cantilena, heb anghofio CoRwst, fydd yn perfformio eu dehongliad nhw o 'anthem' y dref, *Cymru, Lloegr a Llanrwst*.

Yn ein diddanu ni hefyd mae ambell i wyneb cyfarwydd o lwyfannau'r Eisteddfodau, gan gynnwys John Ieuan Jones, Ryan Vaughan Davies, Erin Gwyn Rossington a'r pedwarawd Ruth, Ceri, Sara a Siriol. Ymysg yr artistiaid eraill mae'r comedïwr Eilir Jones, a'r cantorion, Arwel Gildas a Tara Bethan.

Ond un o sêr mwyaf plwy Llanrwst yw Orig Williams, neu El Bandito fel mae'r rhan fwyaf yn ei adnabod, sef y reslar byd enwog o Ysbyty Ifan. Roedd hi'n ddegawd yn 2019 ers ei golli, ac mae ei ferch, Tara Bethan, yn talu teyrnged iddo ar y llwyfan drwy berfformio cân arbennig.

Dywedodd Tara ar lwyfan y Noson Lawen: "Dad oedd fy *hero* fi. Ar yr adega' 'na pan dwi wir yn methu fo, ac yn *wondro* be' i neud efo'n hun, dwi'n meddwl 'be fase dad yn ddeutha fi i godi fy nghalon i?' Felly dyna ydi'r gân yma dwi 'di sgwennu'n arbennig at y noson.

"Mae criw Ysgol Bro Aled, sef fy hen ysgol gynradd i wedi cytuno i helpu fi efo'r gân. Mi wnaethon nhw brosiect yn ddiweddar ac roedd El Bandito yn rhan ohono. Mi holais i gwpl o bethau am fy nhad a gofyn iddyn nhw ei ddisgrifio fo – mi 'natho nhw ddefnyddio geiriau fel dewr, cryf, clên a doniol. Roedden nhw gyd yn eiriau mor bositif."

Clywch y gân arbennig yn cael ei pherfformio gan Tara Bethan a phlant Ysgol Bro Aled fel rhan o wledd **Noson Lawen Eisteddfod 2019** ar S4C nos Sadwrn am 7.30.

**Noson Lawen Eisteddfod 2019**
**Nos Sadwrn 4 Ionawr 7.30, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar gael ar alw ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C**

20.12.2019

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Article**

# Re-live the laughs of Llanrwst National Eisteddfod with Noson Lawen

This year in Llanrwst, an impressive line-up of performers and entertainers took to the stage for the **Noson Lawen** entertainments show, with many local talents among them. And on Saturday, 4 January, you can relive the fun of **Noson Lawen Eisteddfod 2019** in a special broadcast on S4C.

With Llanrwst and the surrounding area famous for its choirs, sit back and relax this new year and enjoy the sounds of local choirs such as Hogiau'r Berfeddwlad, Côr Cantilena and CoRwst, who will be performing their version of Llanrwst's 'anthem', *Cymru, Lloegr a Llanrwst*.

Also taking to the stage will be many other familiar faces, such as John Ieuan Jones, Ryan Vaughan Davies, Erin Gwyn Rossington and the four-part group Ruth, Ceri, Sara and Siriol. Also taking centre stage will be the comedian Eilir Jones, and singers Arwel Gildas and Tara Bethan.

But one of Conwy Valley's most famous stars is Orig Williams, or El Bandito as he is best known, the world-famous wrestler from Ysbyty Ifan. It was 10 years in 2019 since the world lost El Bandito, and his daughter Tara Bethan pays tribute to him on stage by performing a special song.

Tara said on the Noson Lawen stage: "Dad was my hero. During those times when I really miss him and I wonder what to do with myself, I think 'what would dad tell me to cheer me up?'. That's the inspiration behind the song I've written specially for Noson Lawen.

"The crew at Ysgol Bro Aled, which is my old primary school, have agreed to help me with the song. They recently did a project in school and El Bandito was part of it. I asked a couple of things about my dad and asked them to describe him - they used words like brave, strong, smart and funny. They were all such positive words."

Hear the special song performed by Tara Bethan and the children of Ysgol Bro Aled as part of the **Noson Lawen Eisteddfod 2019** on S4C on Saturday night at 7.30.

**Noson Lawen Eisteddfod 2019**
**Saturday 4 January 7.30, S4C**
**English subtitles**
**Available on demand on S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Cwmni Da production for S4C**